# CAN NEWYDD,

Yn nghylch y terfysg a gymerodd le yn nhref Cas'newydd ar wysg, Sir Fynwy, Tach. 3 a'r 4, **1839**, rhwng wyth a deng mil o Chartists yn erbyn degarhugain o filwyr y 45 gatrawd, lle y lladdwyd 20 a chlwyfwyd 50.

**Er hardded glaned mewn glyn,—yw rhyddid,**
**A'r heddwch i'w dilyn ;**
**Nid teg yw rhedeg ar hyn,**
**Trwst hirfaith tros y terfyn.** D. Ddu, Eryri.



***Mesur Cwynfan Brydain.***

Yn ol fy 'wllys, lân gyfeillion,
Heddyw'n dirion, os gwrandewch;
Trwst ochenaid trist achwynion,
Gymry tirion gwiwlan cewch,
Gwiliwn oedi, gwelwch ..deg
Hylaw deg i hwylio dod,
Mewn cywir undeb bawb â'n gilydd,
Rhag digwydd rhyw annedwydd nod.

Trwst a chynwrf oedd trwy Loeger,
A gorthrymder yma a thraw ;
Etto er hyn ni chafodd Cymru,
Hyd eleni brofi braw,
Mae'n beryglus yn mhob ardal,
Lle bydd gwrthryfel ar ei thro
'Rol lladd a chlwyfo'n gilydd gwelwch,
Ni chawn ond tristwch hir o'r tro.

Ein gwlad a lanwyd o elynion,
Dadleuon croesion trymion trist,
Gan wrthryfela yn bena' beunydd,
Er attal cynnydd crefydd Crist;
Cychwyn wnaeth yn sir Drefaldwyn,
Yn y gwanwyn gyda gwg,
Ond nid oedd hyn wrth wyr y Dehau,
Mewn dychryn draw ond dechrau drwg

Roedd eraill yn nghym'dogaeth Merthyr,
Yn eithaf prysur yr un pryd ;
Yn hudo'r gweithwyr ac areithio,
Ar hyd yr ardal hono o hyd ;
Gan gablu'r awdurdodau gwladol,
A dweyd yr aent o'u rhwymau'n rhydd,
Wrth godi yn erbyn y Llywodraeth,
A rhan o'r gyfraith yn ddi gudd,

Eu blaenor Vincent a garcharwyd,
Yn Goal tref Fynwy rhoed efe,
A'i ddilynwyr oedd galonog,
Yn eithaf llidiog yn mhob lle,
Tredegar, Merthyr, Cendl, Rymi,
A Blaenafon wisgi wedd ;
O Gaerphili i Abersychan,
Nid oedd yn unman hoewlan hedd,

Gwneuthur arfau gwrthryfelgar,
Yn fawr eu rhwysg ar hyd yr haf,
Areithio i hudo dynion af n ›eth,
I dori ein cyfreithiau da ;
Ar dref Cas'newydd a'i gwyr mawrion,
Bwriadent wneud ymosodiad syn,
Am iddynt hwy garcharu Vincent,
Er mae haeddiant ydoedd hyn,

Nos Sul, y trydydd dydd o Dachwedd,
Cyfodi wnaent, arswydus son,
Yn lluoedd arfog gyd a'u gilydd,
Heb geisio ffafr yr Arglwydd Iôn ;
Gan *bresio'r* gwyr aent adre'n llonydd,
O'r capelydd heb ddim pall,
Wrth wel'd eu gloewon arfau i fynu,
'Roedd braw yn llenwi'r naill a'r llall.

A John Ridge, gweinidog Carmel,
A ga'dd ei bresio yr un pryd ;
A'i dynu o'i Bulpit amser odfa,
A gwyr y gynulleidfa i gyd,
Ca'dd Mr. Ridge a chyfaill iddo,
Le i ymguddio yno o'u gwydd,
Hyd dri o'r boreu dan y grisiau,
Rhag myn'd i'r Siwrnau erchyll swydd.

'Roedd llu'n eu canlyn gellir coelio,
A ga'dd eu llusgo rhag eu lladd ;
Llawer gwr oedd yn ei wely
Oddiwrth ei wraig ei gyrchu â ga'dd,
Tori drysau dwyn trwy drawster,
Arfau tân o lawer tŷ,
Wrth orchymyn Frost, Cas'newydd,
Hwn oedd llywydd ar eu llu.

Ac yna'r Mayor a'r holl swyddogion,
Pan ddarfunt glywed hyn yn glau,
A wnaethant lawer yn gwnstabliaid,
Cyn yw ymosodiad gael nesau ;
I'r Westgate Inn y gwnaent ymgasglu,
A phawb trwy'r nos yn ofni'n awr,
'Roedd ganddynt yno ddeg ar hugain,
O sawdwyr dewrion gwychion wawr.

Trwy'r nos 'roedd canoedd o'r trigolion
Yn ffoi yn drist i ffordd o'r dre!
Rhag ofn i'r Chartists eu gorchfygu,
Yna llosgi yr holl le,
Gan geisio nodded i'r mynyddau,
Coed a'r creigiau,'n oer eu cri ;
Doedd fawr o gysgu'r amser hyny
Trwy fro sir Fynwy goelia fi.

Dywedai Frost, lle clywai miloedd,
Gwrandewch eich Llywydd frodyr llon,
Cymerwch galon tref Cas'newydd,
Cyn pen ychydig congcrwch hon ;
Y Mayor, ustusiaid, ar Cwnstabliaid,
A gant ein gweled ni fel gwyr ;
Ac os na wnant ymostwng ini,
Gwnawn eu dofi ag arfau dur.

I lawr i'r dref yr aent ar fyrder,
Yn fawr eu hyder ar ol hyn,
Lle'r oedd y Milwyr yn cartrefu,
Gwnaent dynu at y West gate Inn;
Gan feddwl cael yr oruchafiaeth,
Ond cawsant siomedigaeth dost,
Ar ol i'r sawdwyr ddechreu tanio
Caed gwel'd mae bychan oedd eu bost.

Lladdwyd rhai, archollwyd eraill,
Diangai'r lleill oddiyno'n llu.
Ac amryw o r blaenoriaid ddaliwyd,
Fe'u dodwyd yn y carchar du ;
I aros Sessiwn fawr tref Fynwy,
I gael eu barnu am eu brad ;
Sef hudo gwyr i wrthryfela,
Yn erbyn glew gyfreithiau'n gwlad.

Ond ydoedd hyn yn waith truenus,
Ac arswydus i bob sir ;
I'r rhei'ny godi ar ddydd yr Arglwydd,
Yn erbyn grym cyfreithiau'r tir.
Nid oedd i gyd ond deg ar hugain,
O filwyr enwog c'lonôg lu,
Yn erbyn miloedd o derfysgwyr,
I gadw'r dref rhag dychryn du.

Gwell ymostwng nac ymryson,
Trwy'r deyrnas hon, rhag troion trais ;
A geiriau synwyr gwyr y senedd,
All wrando'n llon bob cyson gais ;
Gochelwn wneyd gwrthryfel gwaedlyd,
Rhag ofn cawn gledfyd erchyll glwy ;
Mewn cywir undeb Duw a'n gwnelo,
Trwy Gymry, Amen, dymunaf mwy.

YWAIN MEIRION.

J. J. ARGRAFF. LLANRWST.

*Y faled brin uchod yw'r unig un yn y Gymraeg sy'n darlunio helyntion y Siartwyr gant a hanner o flynyddoedd yn ôl, a hynny heb ddangos unrhyw gydymdeimlad tuag atynt fwy nag a ddengys yr englyn gan Dafydd Ddu.*